# Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – Cynllun Gweithredu

## Cynllunio a chyflawni gwasanaethau

| Cyf. | Adran | Gweithred | Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| A1 | 3.1<br>23.5 | Codi ymwybyddiaeth ar draws yr FCA am yr angen i sicrhau bod polisïau, cynlluniau a gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg. | Diwedd Blwyddyn 1 | Pennaeth Cyfathrebu Busnes a Defnyddwyr |
| A2 | 3.1 | Ystyried ein dull asesu effaith ein polisïau ar yr iaith Gymraeg ac adnabod sut y gallent alluogi'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd. | Diwedd Blwyddyn 3 | Rheolwr Cyfrifoldeb Corfforaethol |
| A3 | 4.1<br>14.1 | Datblygu adran bwrpasol ar dudalen gwe gorfforaethol yr FCA yn amlinellu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a'r holl wasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ar y dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog sydd ar gael ynghyd â'r cynllun a'r cynllun gweithredu hwn. Bydd y dudalen gwe bwrpasol ar gyfer gwybodaeth am yr iaith Gymraeg yn hawdd mynd ati o'r dudalen gartref gyda botwm llywio wedi'i nodi'n glir. Bydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Diwedd Blwyddyn 1 | Rheolwr Golygu a Digidol |
| A4 | 5.1 | Gosod dangosyddion perfformiad gyda thrydydd partïon a monitro cynnydd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r cynllun. | Diwedd Blwyddyn 2 | Rheolwr Prosiect |

## Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

| Cyf. | Adran | Gweithred | Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| A5 | 7.1 | Nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein gohebiaeth awdurdodi swyddogol cyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru ac o fewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd pobl i ymateb i'r FCA. | Diwedd Blwyddyn 1 | Canolfan Alwadau / Awdurdodi |
| A6 | 7.2 | Pan fyddwn yn anfon ein Adroddiad Blynyddol i gwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog, a byddwn yn hysbysu derbynwyr ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |
| A7 | 7.5 | Cadw cofnod o ddymuniad unigolyn i dderbyn gohebiaeth gan yr FCA yn Gymraeg; bydd gohebiaeth gyffredinol o hynny ymlaen yn cael ei hanfon yn Gymraeg. | Diwedd Blwyddyn 1 | Canolfan Alwadau / Awdurdodi |
| A8 | 7.7 | Sicrhau fod atodiadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog hefyd yn ddwyieithog, pan fo'r deunydd ar gael. | Diwedd Blwyddyn 1 | Canolfan Alwadau / Awdurdodi |
| A9 | 7.8 | Sicrhau bod atodiadau a anfonir at y rheini sydd wedi nodi gohebiaeth Gymraeg fel eu dewis (Adran 7.5) yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fo'r deunydd ar gael. | Diwedd Blwyddyn 1 | Canolfan Alwadau / Awdurdodi |
| A10 | 8.1 | Darparu Opsiwn Cymraeg ar ein prif linell gymorth yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. | Diwedd Blwyddyn 1 | Canolfan Alwadau |
| A11 | 8.1 | Ceisio adeiladu ar y gwelliannau yng Ngweithred A10 drwy ddatblygu'r gwasanaeth Cymraeg a gynigir ar y ffôn ymhellach; gallai'r gwelliannau posib i'w hystyried gynnwys ymdrin â galwadau yn llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg neu adael negeseuon yn Gymraeg ac, os bydd angen ymateb, sicrhau yr ymdrinnir â'r mater heb unrhyw oedi diangen. | Diwedd Blwyddyn 3 | Canolfan Alwadau |
| A12 | 9.1 | Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru a rhoi gwybod i'r rheini sy'n mynychu y croesewir y defnydd o'r Gymraeg yn y digwyddiad. | Diwedd Blwyddyn 2 | Adran Cyfathrebu a Chwmnïau |
| A13 | 9.1 | Sicrhau y trefnir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. | Diwedd Blwyddyn | Adran Cyfathrebu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2 | a Chwmnïau |
| A14 | 11.2 | Anfon gwahoddiadau dwyieithog i seminarau, cyrsiau hyfforddiant neu ddigwyddiadau tebyg a gynhelir i'r cyhoedd yng Nghymru, gan roi gwybod i'r gwahoddedigion y croesewir y defnydd o'r Gymraeg os yw hynny'n briodol. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael. | Diwedd Blwyddyn 2 | Adran Cyfathrebu a Chwmnïau |

## Ein hwyneb cyhoeddus

| Cyf. | Adran | Gweithred | Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| A15 | 12.5 | Pan fyddwn yn sefydlu llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. | Diwedd Blwyddyn 2 | Ymgyrchoedd |
| A16 | 12.6 | Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu stondinau arddangosfeydd ymgyrchoedd yng Nghymru trwy weithio gyda darparwyr gwasanaeth allanol neu bartneriaid. | Diwedd Blwyddyn 1 | Adran Cyfathrebu a Chwmnïau |
| A17 | 13.1<br>13.2 | Adnabod yr 20 dogfen generig yr FCA i ddefnyddwyr a ddefnyddir fwyaf gan gwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a sicrhau eu bod ar gael yn ddwyieithog. | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |
| A18 | 13.2 | Sicrhau bod 5 cyhoeddiad generig ychwanegol ar gael yn flynyddol (15 ychwanegol dros gyfnod o 3 mlynedd). | Diwedd Blwyddyn 3 | Golygu a Digidol |
| A19 | 13.1<br>13.2 | Darparu rhestr o'r cyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan ac o fewn ein Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |
| A20 | 15.1 | Datblygu ffrwd Twitter gorfforaethol Gymraeg bwrpasol. | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |
| A21 | 16.1 | Adnabod y 10 ffurflen a ddefnyddir fwyaf ar gyfer y math o gwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a sicrhau eu bod ar gael yn ddwyieithog. | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A22 | 16.2 | Sicrhau bod 3 ffurflen ychwanegol ar gael yn flynyddol (9 ychwanegol dros gyfnod o 3 mlynedd). | Diwedd Blwyddyn 3 | Golygu a Digidol |
| A23 | 16.1<br>16.2 | Darparu rhestr o'r ffurfleni ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan ac o fewn ein Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |
| A24 | 16.9 | Adolygu, ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, sut allwn gynyddu argaeledd ffurflenni dwyieithog ar-lein, dros amser. | Diwedd Blwyddyn 3 | Golygu a Digidol |
| A25 | 18.1 | Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg yr ydym yn eu darparu drwy roi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru drwy ohebiaeth, mewn digwyddiadau yng Nghymru, ar y wefan a'r ffrwd Twitter Gymraeg. | Diwedd Blwyddyn 1 | Golygu a Digidol |

## Gweithredu'r cynllun

| Cyf. | Adran | Gweithred | Targed | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| A26 | 20.1<br>23.5<br>23.6<br>23.7<br>23.8 | Cynhyrchu canllawiau i staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. | Diwedd Blwyddyn 1 | Cyfathrebu |
| A27 | | Addasu canllawiau presennol, neu debyg, a ddefnyddir gan staff i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. | Diwedd Blwyddyn 1 | Cyfathrebu |
| A28 | | Trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant i staff allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac esbonio sut fydd yn effeithio ar eu gwaith beunyddiol. | Diwedd Blwyddyn 1 | Cyfathrebu |
| A29 | 24.2 | Adrodd i uwch reolwyr ar y cynnydd hwnnw yn flynyddol. | Diwedd Blwyddyn 1 | Cyfathrebu |
| A30 | 24.3 | Sicrhau bod gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn, fel sy'n briodol. | Diwedd Blwyddyn 2 | Cyfathrebu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A31 | 24.4 | Paratoi adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ac ar gais, gan amlinellu'r cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu. | Diwedd Blwyddyn 1 | Cyfathrebu |
| A32 | 25.1 | Adolygu'r cynllun hwn o fewn tair mlynedd iddo ddod i rym. | Diwedd Blwyddyn 3 | Cyfathrebu |